



Adran 3:

Patrymau ar gyfer Oedfaon



Bwriad yr adran hon yw cynnig casgliad o batrymau ar gyfer oedfaon addas i rai sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae rhai oedfaon ar themâu penodol, ac eraill yn dilyn y calendr eglwysig neu'n addas ar gyfer sacrament y Cymun.

Y syniad yw cynnig yr oedfaon hyn i gynulleidfaoedd sydd, efallai, heb weinidog neu sydd ag angen arweiniad. Gellid cynnal oedfa ddementia yn lle'r oedfa arferol ar ambell Sul, neu fel gwasanaeth ychwanegol yn ystod yr wythnos. Gall fod yn ddigwyddiad rheolaidd neu achlysurol, yn dibynnu ar y galw. Byddai'n braf cael plant a phobl ifanc yn bresennol ar adegau, ac rydym yn annog rhoi cyfle i'r gynulleidfa gymryd rhan.

Fe welwch fod sleidiau PowerPoint ar gael i'w lawrlwytho o wefan yr Undeb i gyd-fynd â rhai oedfaon. Rydym wedi cynnwys wyth oedfa yn y ffeil ei hun, ac mae rhagor ar gael ar y wefan. Rydym yn diolch i'r cyfeillion canlynol (yn nhrefn yr wyddor) am baratoi'r oedfaon hyn ar ein cyfer: Carys Ann, Owain Llŷr Evans, R. Alun Evans, Gwyn Elfyn Jones, Trefor Jones-Morris, Guto Llywelyn, Hywel Wyn Richards, Robin Wyn Samuel a Mererid Mair Williams.



Beth yw Oedfa Dementia-gyfeillgar?

Bydd oedfa ddementia-gyfeillgar yn wahanol i'r arfer am ein bod yn ceisio teilwra'r gweithgaredd ar gyfer y cyfeillion hynny sy'n byw gyda dementia. Yn aml iawn bydd rhan helaeth o'r gynulleidfa'n methu canolbwyntio ar un peth am gyfnod hir. Bydd rhai'n dymuno cerdded o gwmpas yn ystod y gwasanaeth, a dylid bod yn barod hefyd am rywrai'n siarad yn uchel o dro i dro. Buan y down ni i dderbyn mai dyna'r drefn gyda'r math yma o oedfa, ac nad oes angen teimlo unrhyw chwithdod.

Y gamp i'r arweinydd yw bod yn gynnes, yn gartrefol, ac yn anffurfiol.

Dylid glynu at emynau poblogaidd, darlenniadau cyfarwydd a myfyrdodau byr, difyr. Gorau oll os oes modd denu'r gynulleidfa i mewn gyda gweithgareddau rhyngweithiol a defnyddio gwrthrych megis kannwyll, blodau neu ddarlun fel canolbwynt i'r addoliad. Mae elfen o ailadrodd bob amser yn syniad da.

Yn sicr, nid dyma'r lle i bregethu'n hirfaith na chyflwyno syniadau astrus neu ddadleuon diwinyddol dwfn. Symlwrwydd piau hi bob tro, ac mae modd cyflawni hynny heb fod yn nawddoglyd.



Oedfa Sul y Blodau

[Bydd angen llestr a thusw o flodau]

ARWEINYDD

Heddiw yw Sul y Blodau. Tybed beth yw'ch hoff flodyn chi? Beth am glychau'r gog neu'r briallu? Daffodil neu gennin Pedr? Dyna hoff flodyn pob Cymro neu Gymraes, si ŵr o fod. 'O nage', medd rhywun, 'fy hoff flodyn i yw'r rhosyn . . . neu'r fioled . . . neu lygad y dydd neu fysedd y c ŵn neu rug y mynydd.'

Grug y mynydd yn eu blodau,
Edrych arnynt hiraeth ddug
Am gael aros ar y bryniau
Yn yr awel efo'r grug.

Mae gen i dusw o flodau fan hyn, a dwi am eu rhoi nhw mewn llestr. Ond dydw i ddim yn dda iawn am osod blodau. Falle y caf i help gennych chi i wneud sioe dda o ddail a blodau fel y gallwn ni eu gweld ar eu gorau, rhyfeddu at y gwahanol liwiau a mwynhau'r amrywiol arogleuon.

[Dechrau gosod blodyn neu ddau]

O'n i'n dweud wrthydd chi nad oeddwn i yn dda iawn am osod blodau. Beth am ganu emyn tra bydd eraill ohonoch chi'n rhoi cynnig arni?



EMYN 391 'Pwy all beidio canu moliant iddo ef?' [*Yn ystod y canu gellid annog rhai i osod blodau yn y llestr*]

ARWEINYDD

Diolch i chi am eich help. A nawr rwy'n cael help [*enwi pwy sy'n darllen*] i ddarllen hanesyn o'r Beibl.

DARLLENYDD Mathew 21:1–11

ARWEINYDD

Gadewch i ni ganu eto gytgan yr emyn ganom ni gynnu. Cytgan emyn 391.

[*Canu cytgan emyn 391 a dyblu'r canu*]

ARWEINYDD

Ie, moliant iddo ef. Moliant i'r Brenin Iesu. Meddyliwch wir! Brenin yn marchogaeth ebol asyn. Crist yn marchogaeth ebol asyn i mewn i'r ddinas. Nid march rhyfel ond ebol asyn – symbol o heddwch.

Ond mae hwyl ddrwg ar Iesu. Mae e, beth bynnag am yr asyn, ar ben ei dennyn. Mae'r cynllunio bwriadol yn ei erbyn, y cynllunio herfeiddiol gan y ddinas fradwrus ar fin cyrraedd ei benllanw. Does dim carped coch i'r Brenin; dim utgyrn yn seinio. Dim ond pobol yn taenu palmwydd a blodau a dail. Pobol yn gweiddi, 'Hosanna i Fab Dafydd. Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.'

DARLLENYDD

Ynfydion! Cefais innau f'awr,
Yr awr felysa' gaed.
Roedd sain 'Hosanna' yn fy nghlust
A phalmwydd dan fy nhraed.

ARWEINYDD

Beth am ganu emyn arall? Emyrn Elfed.

EMYN 360 'Pwy sy'n dod i Salem dref?'

ARWEINYDD

Eryn Sul y Blodau. Dydd Sul. Dydd cynta'r wythnos, neu'r dydd ola? Pa un yw dydd cynta'r wythnos? Dydd Llun. Dydd Llun yw dydd cynta'r wythnos. Dydd Llun, dydd Mawrth, dydd Mercher, dydd Iau, dydd Gwener, dydd Sadwrn. A pha ddydd sy'n dilyn dydd Sadwrn? Ie, dydd Sul.

Dydd gwisgo dillad gorau. Oeddech chi'n cael dillad newydd i fynd i'r capel?

Hwn yw y sanctaidd ddydd,
gorffwysodd Duw o'i waith;
a ninnau'n awr, dan wenau Duw,
gorffwyswn ar ein taith.

Yr enw ar y dydd o orffwys cysegredig a ddiwedddai yr wythnos Iddewig oedd y Saboth. Ystyr 'Saboth' yw 'ymatal', neu 'peidio', ac roedd cysylltiad rhwng cadw'r Saboth a'r lleud. Hynny yw, dathlu gŵyl lleud lawn oedd y Babyloniaid. Ond gydag amser, ac wrth ffurfio calendr, aeth y cysylltiad rhwng y lleud a'r Saboth yn llai ac yn llai nes cael ei anwybyddu'n llwyr. Am y berthynas rhwng y Saboth a'r Sul Cristnogol, hwn bellach oedd dydd cynta'r wythnos, Dydd yr Arglwydd.

Gadewch i ni droi at yr Arglwydd mewn gweddi.

DARLLENYDD

Gweddiwn.

Frenin Nef a Daear, daethost ti i Jerwsalem yn marchogaeth ar gefn asyn a dangos dy frenhiniaeth. Gwyddom mai yn ein calonau yr wyt ti am deyrnasu. Cura ar ddrws ein calonau, Arglwydd, er mwyn dod i mewn. Dymunwn dy ddilyn i mewn i'r ddinas ac i mewn i'th orfoledd. Dyro i ni'r awydd i wasanaethu'r rhai y mae eu bywydau'n cyffwrdd â'n bywydau ni fel y byddom yn anrhydeddu'n gilydd. Tyred i'th etifeddiaeth drwy'r byd i gyd, a theyrnasa drosto mewn heddwch ac mewn cyfiawnder a chariad. Rhoddwn ddiolch i ti. Dathlwn a dyrchafwn di. Hosanna yn y goruchaf.
Ein Tad . . .

ARWEINYDD

Ffydd fywiol, wreiddiol ar weddi – heb lid,
Ffydd a blodau arni;
Ffydd heb un awr ddiffoddi,
Ffydd gref â i'r nef â ni.

Dyma gloi ein hoedfa gydag un arall o emynau Elfed.

Pwy sy'n dwyn y Brenin adref?
Pwy sy'n caru gweld ei wedd?

Ac wedi canu'r emyn fe gawn ni baned a sgwrs – o ie, a gorffen gosod y blodau.

EMYN 250 'Pwy sy'n dwyn y Brenin adref?'

ARWEINYDD

Y Fendith

Cynorthwya ni i'th ddilyn yn dy wyleidd-dra, dy aberth a'th gariad. A gras fyddo
gyda ni oll.
Amen.

(R.A.E.)



Oedfa Gwener y Groglith

[Awgrymir cyflwyno croes fechan o wellt/pren/papur i bawb sy'n bresennol]

INTRADA *[darn cyfarwydd, i gyfeiliant unrhyw offeryn]*

ARWEINYDD

Croeso i'r oedfa, a hithau'n ddydd Gwener. 'Dydd Gwener! Dydd Gwener!' meddech chi. 'Dydyn ni ddim yn arfer mynd i'r capel neu'r eglwys ar ddydd Gwener. Dydd Sul yw dydd mynd i'r capel neu'r eglwys. Ydych chi'n siŵr fod y diwrnod iawn gyda chi?'

Yn berffaith siŵr. Ond nid unrhyw ddydd Gwener yw hwn. Dyma'r dydd dwysaf yng nghalendr y Cristion. Dydd Gwener y Groglith. Mae'r Saeson yn ei alw'n 'Good Friday'. Good? Beth sy'n 'good' am ddiwrnod mor ddwys, mor greulon? Efallai mai 'God's Friday' a olygir, fel yn yr Almaeneg *Gottes Freitag*. Falle'n wir. Ond er ein bod ni'n cyfeirio at rywbeth erchyll a chreulon wrth sôn am Grist yn cael ei groeshoelio, rydyn ni hefyd yn nodi mai ar y dydd hwn y cafodd y byd ei waredu o'i bechod.

Edrychwch ar y symbol o'r groes sydd yn eich llaw. Dyma i chi rai o eiriau Iesu ar y groes.

GWEDDI

[Y lleisiau'n cyfrannu o'u seddau. Dylid cael saib rhwng y lleisiau.]

LLAIS 1 'O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud.'

[Luc 23:34]

Helpa ni, O Dduw, i faddau i eraill. A maddau i'n byd y pethau creulon sy'n digwydd.

LLAIS 2 'Heddiw byddi gyda mi ym Mharadwys.' [Luc 23:43]

Diolchwn i ti, O Dad, am y sicrwydd hwn.

LLAIS 3 'Fy Nuw, fy Nuw, pam yr wyt ti wedi fy ngadael?' [Marc 15:34]

Helpa ni, O Dduw, yn yr oriau mwyaf tywyll ac unig.

LLAIS 4 'Y mae arnaf syched.' [Ioan 19:28]

Helpa ni, O Dad, i sicrhau bwyd a diod i'r newynog a'r sychedig.

LLAIS 5 'Gorffennwyd.' [Ioan 19:30]

Diolch i ti, O Dad, fod Iesu wedi cyflawni'r gwaith y daeth i'r ddaear i'w gyflawni.

[Tawelwch am rai eiliadau]

ARWEINYDD

Roedd croes Crist wedi ei chodi gan y milwyr Rhufeinig ar fryn Calfaria. Dyfed yw awdur emyn rhif 496 yn *Caneuon Ffydd*. Gadewch i ni ganu'r emyn ar y dôn 'Price'.

EMYN 496 'I Galfaria trof fy wyneb'**ARWEINYDD**

Emyn Dyfed ar y dôn 'Price'. Emyn am Iesu'n talu'r pris; y pris am ein pechodau ni. Pan fyddwn ni'n ddrwg mae pris i'w dalu am gael maddeuant. Os oedden ni'n ddrwg yn yr ysgol, fe allen gael ein hanfon allan o'r dosbarth a'n gorfodi i sefyll y tu allan i'r drws. Sgrifennu cant o linellau (ac yn Saesneg fel arfer) '*I must not . . . rhywbeth neu'i gilydd.*' Cael ein cadw i mewn ar ôl ysgol, ar ôl i bawb arall fynd adre.

Tybed beth oedd y gosb waetha gawsoch chi? Cael eich anfon i stafell y prifathro, hwyrach. Ac yn y stafell honno roedd 'na gansen. Ie, dwi'n gwybod. Roedd y gansen yn brifo.

Does dim hawl defnyddio'r gansen bellach yn y rhan fwyaf o wledydd Ewrop. Ond bydd ambell un yn ymffrostio, 'Wnaeth hi ddim drwg i mi. Ac fe ddysgais i fy ngwers.'

Bu'n rhaid i Iesu Grist wynebu'r groes. Ar fryn Calfaria gydag ef roedd dwy groes arall, a dau droseddwr arall oedd yn derfysgwyr. Dau bechadur. Ond doedd Iesu ddim ar fai. Roedd Iesu'n ddibechod. Ac mae'r pedair efengyl – Mathew, Marc, Luc ac Ioan – er yn adrodd yr un hanes yn dweud rhai pethau gwahanol i'w gilydd. Dim ond Mathew sy'n sôn am Peilat yn golchi'i ddwylo. Roedd gan Peilat gansen, onid oedd; neu chwip yn hytrach. Gan nad oedd e'n cael Iesu'n euog o

unrhyw gyhuddiad mae'n dweud, 'Fe ddysgaf wers iddo â'r chwip.' Ond roedd y dorf yn bloeddio, 'Croeshoelïer ef.'

Dim ond Luc sy'n sôn am rai o eiriau olaf Iesu. Mae Marc yn dweud bod Iesu wedi gwrthod ateb cwestiynau Peilat – 'nid atebodd Iesu ddim mwy'; mae Ioan ar y llaw arall yn sôn am ddeialog rhwng y ddau. Ond yr un yw'r canlyniad. Rhyddhau Barabbas, y dyn drwg, a dedfrydu Iesu, y dyn da, i'w groeshoelïo. A hynny'n digwydd ar y dydd Gwener.

Dyw'r Beibl ddim yn dweud 'dydd Gwener'. Ond mae'n dweud bod Iesu wedi atgyfodi ar 'y trydydd dydd,' hynny yw, dydd Sul. Mae emyn rhif 764 hefyd yn sôn am y 'trydydd dydd'.

[Rhywun i ledio'r emyn. Gallai fod yn un o'r lleisiau.]

EMYN 764 'Ni allodd angau du ddal Iesu'n gaeth'

ARWEINYDD

Dyn o'r enw Gwilym ab Elis piau geiriau'r emyn yna. Dyn o ardal y Bala oedd e ac mae wedi'i gladdu ym mynwent Llanycil, ar lan llyn Tegid. Yn yr eglwys yn Llanycil, eglwys Sant Beuno, mae amgueddfa i gofio am daith Mari Jones i'r Bala i brynu Beibl. Dyma sut mae'r Beibl yn adrodd hanes y croeshoelïo.

DARLLENYDD Marc 15:33–39 (o unrhyw fersiwn o'r Beibl)

ARWEINYDD

Mae darluniau enwog i'w cael o'r croeshoelïad – Crist yn cario'r groes; Crist ar y groes; corff Crist yn cael ei dynnu oddi ar y groes; y goron ddrain, yr hoelion dur; Jiwidas yn bradychu Iesu; Pedr yn gwadu adnabod Iesu; y milwyr a'r dorf yn gwawdio Iesu; mam yr Iesu wrth droed y groes . . . Sgwn i, pe bai gennyh chi'r modd, pa ddarlun o Grist fyddech chi'n ei osod ar wal y gegin? Mae rhai gan arlunwyr enwog o'r canol oesoedd; eraill gan artistiaid modern.

Darluniau du a thywyll yw lluniau'r croeshoelïo at ei gilydd. Mae'r llun cynharaf o Grist ar y groes i'w weld yn eglwys gadeiriol Cologne.

Os nad lluniau, beth am yr ardd? Mae'n draddodiad gan rai garddwyr i blannu tatws cynnar ar ddydd Gwener y Groglith. Pa datws fyddech chi'n dewis? Desiree, King Edward, Javelin, Red Thumb, Purple Majesty? Maen nhw o bob lliw ac o bob siâp. A'r syniad o blannu ar ddydd Gwener y Groglith, mae'n debyg, yw bod y llysiau'n cael eu claddu yn y pridd yn y gwanwyn ac yn dwyn ffrwyth yn yr haf. Tatws o'r ardd; pys o'r ardd; ffa a ffrwythau o'r ardd. Does mo'u gwell i'w cael. Ond lle gwahanol iawn oedd gardd Gethsemane. Yno y bu Crist yn gweddio. Yn yr ardd honno y bradychwyd ef. Yn y fan honno y cafodd ei arestio, ei roi ar brawf ac yna ei groeshoelio.

Dyma *[enwi – plentyn os yn bosib, neu berson ifanc]* i chwarae darn o gerddoriaeth ar *[delyn, ffidil, fflwt, gitâr, piano]* i'n hatgoffa o ddiodefaint Iesu.

EITEM OFFERYNNOL *[gan berson ifanc]*

ARWEINYDD

[Diolch i'r offerynnwr]

I orffen, fe ganwn ni emyn rhif 505. *[Arweinydd yn ledio'r emyn]*

EMYN 505 'Mi ganaf tra bo anadl o fewn i'r ffroenau hyn'

Fe soniwyd am yr ardd gynnu. Mae 'na ychydig becynnau o hadau ar y byrddau y gellir eu plannu yr adeg yma o'r flwyddyn. Ewch â nhw efo chi ar bob cyfri. Croeso i chi aros am baned a sgwrs cyn mynd adre.

Nawr fe ddwedwn ni'r fendith efo'n gilydd.

Y FENDITH

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fyddo gyda ni oll o'r awr hon hyd byth. Amen

(R.A.E.)

Oedfa Sul y Pasg

[Awgrymir rhoi wy Pasg bychan i bawb wrth iddynt gyrraedd, neu ffrwyth i'r rhai sy'n dioddef o glefyd y siwgr. Bydd angen kannwyll mewn lle amlwg].

ARWEINYDD

Croeso i oedfa Sul y Pasg. Y peth cyntaf wnawn ni yw cynnau'r gannwyll. Oes rhywun am roi help i oleuo'r gannwyll?

[Dylid cymryd gofal wrth ddewis pwy sydd am danio'r fatsien]

Diolch *[enwi pwy bynnag sydd wedi goleuo'r gannwyll]*. Mae goleuo kannwyll ar fore Sul y Pasg yn hen hen draddodiad sy'n perthyn i'r ffydd Iddewig. Mae'r fflam yn dynodi 'goleuni'. Iesu ddywedodd wrth ei ddilynwyr, 'Nid yw'r sawl sy'n rhodio yn y tywyllwch yn gwybod lle mae'n mynd. Tra bo'r goleuni gennych, credwch yn y goleuni, ac felly plant y goleuni fyddwch.' [Ioan 12:35, 36]

Ac mae gennych chi wy Pasg i'w fwyta ar ddiwedd y gwasanaeth neu ar ôl mynd adre. Mae'r wyau'n lliwgar. Sawl lliw sydd 'na? – coch, glas, melyn, oren, gwyrdd, porffor – pob math o liwiau. Lliwiau ar y papur lapio ydyn nhw. Pan fyddwch chi'n tynnu'r papur lapio fe welwch chi liw arall: lliw siocled. Dyna blisgyn yr wy.

Yr hyn sy'n digwydd ar wyl y Pasg yw ein bod ni'n torri'r plisgyn ac yn rhyddhau'r hyn sydd y tu mewn i'r plisgyn. Meddylwch am iâr yn dodwy wy go iawn. Os yw'r iâr yn gori – hynny yw, yn eistedd ar yr wy – mae hi'n gwneud hynny er mwyn cadw'r wy yn gynnes. Oherwydd y tu mewn i'r wy mae'r cyw. Mae hi'n cymryd tair wythnos i'r wy ddeor. A dyna i chi fywyd newydd. Ym myd yr adar mae cyw yn torri drwy'r plisgyn a dyna eto fywyd newydd – bywyd a fydd, ymhen amser, yn gallu hedfan. Mae'n gallu hedfan yn uchel. Mae'n gallu hedfan ymhell.

Symbol yw'r wy o fywyd newydd; gobaith newydd; cyfle newydd. Ac mae hynny'n rhywbeth i fod yn falch ohono. Crist yn cael ei roi ar brawf a'i gael yn euog. Crist yn cael ei groeshoelio a'i ladd. Crist yn cael ei gladdu mewn bedd. Dyna'r plisgyn. Dyna'r carchar. Ond mae Crist yn torri'n rhydd o'i gaethiwed. 'Ni allodd angau du ddal Iesu'n gaeth ddim hwy na'r trydydd dydd; yn rhydd y daeth.' Ac mae hynny'n rheswm i ni ddathlu.

Heddiw yw'r 'trydydd dydd'. Mae'r bedd yn wag. Mae Crist yn fyw!

[Plentyn neu berson ifanc i ledio'r emyn]

EMYN 555 'Heddiw cododd Crist yn fyw, Haleliwia'

ARWEINYDD

Trwy'r byd i gyd – Asia, Affrica, America, Awstralia, Antartica ac Ewrop – mae 'na ddatlu. Mae 'na ddiolch. Mae'r bedd yn wag.

Sut digwyddodd hynny? Mae stori atgyfodiad Crist yn dweud storïau gwahanol. Mae sôn am angyllion, un angel, dau angel. Mae rhai'n credu bod corff Crist wedi cael ei ddwyn naill ai gan ei elynion neu gan ei gefnogwyr. Fe fyddai'r gelynyddion wedi dwyn y corff rhag i'r bedd ddod yn gyrchfan pererinion.

Pe baen nhw wedi dwyn y corff, fe fyddai'r naill ochor a'r llall wedi dangos y corff er mwyn profi mai twyll oedd y cyfan. Ond fedren nhw ddim. Doedd dim corff. Roedd y bedd yn wag.

Yr hyn sy'n bwysig yw nid beth ddigwyddodd. Wyddom ni ddim beth ddigwyddodd. Yr hyn sy'n bwysig yw effaith y bedd gwag. Beth mae hynny'n ei feddwl?

I'n hatgoffa ni, dyma sut mae Marc yn dweud yr hanes.

[Gellid defnyddio'r darlleniadau yn ôl y galw – un neu fwy]

DARLLENYDD 1

Marc 16:1–8

ARWEINYDD

Dyma'r un hanes gan Mathew.

DARLLENYDD 2

Mathew 28:1–8

ARWEINYDD

Dyma'r hanes yn Efengyl Luc.

DARLLENYDD 3

Luc 24:1–12

ARWEINYDD

Ac eto, yr hanes yn Ioan.

DARLLENYDD 4

Ioan 20:1–10

ARWEINYDD

Dwi'n siŵr fod yr wyau Pasg 'na gawsoch chi yn flasmus. Os leiciwch chi, fe allwch ddechrau eu bwyta nhw nawr. A dyma i chi rywbeth arall blasus; rhywbeth i'w fwynhau.

[Plentyn neu berson ifanc i chwarae darn o gerddoriaeth berthnasol neu ganu, neu ddefnyddio CD neu ffôn i'r un perwyl]

CERDDORIAETH

EMYN 563 'I Dduw bo'r gogoniant'

ARWEINYDD

Mae dwy thema i stori'r Pasg. Mae'r ddwy thema'n crynhoi ystyr Gŵyl y Pasg. Y thema gyntaf yw'r ymadrodd, 'Mae'r Iesu yn fyw.' 'Crist sy'n byw ynof fi.' [Galatiaid 2:20] Dyw Iesu ddim bellach yn berson o gig a gwaed, wedi ei gyfyngu gan amser. 'Ac yn awr yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.' [Mathew 28:28] Mae Iesu'n gallu cerdded i mewn i ystafell sydd wedi'i chloi; yn gallu cydgerdded gyda ni heb i ni ei adnabod; yn gallu diflannu o'n golwg mewn eiliad. Luc sy'n rhybuddio yn erbyn chwilio am Iesu yn ei fedd. 'Pam yr ydych yn ceisio ymhlith y meirw yr hwn sy'n fyw?' [Luc 24:5] Nid person y gorffennol pell yw Iesu. Mae'n berson y presennol. Ac fe wyddom ni am y profiad o deimlo Iesu'n agos atom ni.

Yr ail thema yw bod Duw yn cyfiawnhau ac achub cam lesu. Mae'n dweud 'le' wrth lesu a 'Na' wrth y pwerau a'i rhoddodd ar y groes. Nid stori sy'n gorffen *and they all lived happily ever after* yw stori'r Pasg, ond stori am Dduw yn rhoi'r awdurdod i lesu ac i'r rhai sy'n ei ddilyn.

'Rhoddwyd i mi,' meddai, 'bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd.' [Mathew 28:18, 19]

Fe gawn ni air o weddi ac yna emyn arall i orffen y gwasanaeth.

GWEDDI

[Gan un arall sy'n bresennol neu gan yr Arweinydd]

O Dduw, ein Tad nefol, moliannwn di am fore'r trydydd dydd, ac am awr fawr buddugoliaeth dy fab ar bechod a bedd. Boed gorfoledd y Pasg yn ein calonnau yn wastadol, drwy lesu Grist ein Harglwydd a'n dysgodd i weddio a dweud . . .
Ein Tad (cydadrodd Gweddi'r Arglwydd)

EMYN 547 'Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw'

ARWEINYDD

Gadewch i ni ddweud y gras gyda'n gilydd.

Gras ein Harglwydd lesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân a fyddo gyda ni oll o'r awr hon hyd byth.

Amen

(R.A.E.)

Oedfa Gŵyl Ddiolchgarwch

[Y cwmni i eistedd mewn hanner cylch o gwmpas bwrdd gyda lliain gwyn arno]

[Mae delweddau ar PowerPoint ar gael ar wefan yr Undeb i gyd-fynd â'r oedfa hon]

[Dylid trefnu bod amrywiaeth o fwydydd ar y bwrdd yn barod – bara, llysiau amrywiol, bwydydd sych a thuniau o bob math]

O gofio bod pobl sy'n byw gyda dementia weithiau'n treulio oriau lawer yn troi tudalennau llyfrau a chylchgronau, yn gwranddo ar y radio neu'n edrych ar deledu, gellid gosod llyfrau a chylchgronau, radio a gliniadur (i gynrychioli teledu) ar y bwrdd yn ogystal.

neu

Tra bod cerddoriaeth bwrpasol yn chwarae yn y cefndir, cael y gynulleidfa i osod eu 'rhoddion diolch' ar y bwrdd wrth iddynt gyrraedd, gan gynnwys llyfrau a chylchgronau.

Yna yr arweinydd i osod radio a gliniadur yn eu lle – neu osod y rheiny ar y bwrdd ymlaen llaw.

ARWEINYDD

EMYN 15 'I Dad y trugareddau i gyd'

GWEDDI

Am iti'n dwyn, O Dad, i'r ddaear hon
Y plyga pob credadun ger dy fron;
Am na bu tymor, na bu haul erioed,
Na lloer na sêr, a fethodd gadw'u hoed.
Tywelltaist arnom ni, drueiniaid gwael,
Gawodydd dibrin o'th fendithion hael.
Seiniwn dy foliant,
Salm i'th ogoniant yw y cread gwiw.
(Mawl i'r Crëwr, Gwilym R. Jones)

CROESO

Croeso cynnes i'r oedfa. Diolch am eich cwmni a diolch am y rhoddion ar y bwrdd. Efallai nad yw'r ŵyl ddiolchgarwch mor bwysig heddiw ag y bu flynyddoedd yn ôl, ond mae'r amrywiaeth o bethau sydd ar y bwrdd yn dangos gymaint sydd gyda ni i ddiolch amdano o hyd. Wrth gwrs, mae lle gyda ni i ddiolch bob dydd o'n bywyd, ond mae cynnal oedfa 'ddiolchgarwch' yn gyfle i ni i feddwl gymaint o ddyledwyr ydym ni, ac i gydnabod, y tu cefn i'r cyfan, waith Duw, Creawdwr pob peth. Dyna mae David Charles yn ei wneud yn ein hemyn cyntaf.

EMYN 64 'Tydi sy deilwng oll o'm cân'

CYD-DDARLLEN SALM 100 'Cenwch yn llafar i'r Arglwydd, yr holl ddaear'

DARLLENIADAU Deuteronomium 8:7–14; 17–18

Adnodau o Salm 104

Fy enaid bendithia'r Arglwydd.

O Arglwydd fy Nuw, mawr iawn wyt ti;

Yr wyt wedi seilio y ddaear ar sylfeini cadarn,
ac ni symuda byth.

Yr wyt yn peri i nentydd lifo i'r dyffrynnoedd,
ac afonydd rhwng y bryniau.

Maent yn rhoi dŵr i'r anifeiliaid gwylltion;
yno mae'r asynnod gwyllt yn torri eu syched.

Yn y coed gerllaw mae'r adar yn gwneud eu nythod ac yn canu.

Rwyt yn anfon glaw ar y bryniau o'r awyr,
ac y mae'r ddaear wedi'i llenwi â'th fendithion.

Yr wyt yn gwneud i laswellt dyfu i'r gwartheg
a phlanhigion i ddyn eu defnyddio,

er mwyn iddo dyfu ei gnydau
a chynhyrchu gwin i'w wneud yn llawen,
olew i godi ei galon,
a bara i'w gynnal.

Litani o Ddiolch

Am harddwch dy greadigaeth:

Diolchwn i ti, O Dduw

Am lewyrch yr haul a glendid yr awyr, ac am iechyd i'w mwynhau:

Diolchwn i ti, O Dduw

Am ffurfiau'r mynyddoedd a'r bryniau,

am liwiau'r blodau a'r coed,

ac am lygaid i'w gweld a'u mwynhau:

Diolchwn i ti, O Dduw

Am gân yr adar, am fiwsig llais ac offeryn, ac am glustiau i'w clywed:

Diolchwn i ti, O Dduw

Am y rhai sy'n ein caru ac yn gofalu amdanom, am eu cwmni a'u cyfeillgarwch:

Diolchwn i ti, O Dduw

Am deulu a chymdeithas dy eglwys, am fendithion mawl a gweddi:

Diolchwn i ti, O Dduw

Am Iesu Grist ein Harglwydd a'n Gwaredwr,

ac am fywydau i'w cysegru iddo mewn cariad a gwasanaeth:

Diolchwn i ti, O Dduw

EMYN 116 'Nef a daear, tir a môr'

SGWRS

Un o'r rhyfeloedd mwyaf enbyd a gwaedlyd a welodd Ewrop oedd y rhyfel a barodd o 1618–1648, y *Thirty Years' War*. Yng nghanol y brwydro yn Saxony roedd tref gaerog Eilenburg y byddai pobl yn ffoi iddi am ddiogelwch pan ddeuai'r brwydro'n agos.

Un o blant Eilenburg oedd Martin Rinkart, cerddor dawnus a enillodd ysgoloriaeth i ysgol St Thomas, Leipzig, lle cafodd ei hyfforddi'n gantor ac offeiriad.

Yn 1617 cafodd ei benodi'n archddiacon Eilenberg, yn un o bedwar *pastor*, sef gweinidog, yn ei dref enedigol, ac yno y bu am weddill ei fywyd. Flwyddyn wedi iddo ddychwelyd cychwynnodd y rhyfel, a threuliodd Martin Rinkart hanner ei oes yn sŵn y rhyfela.

Yn 1637 cafwyd achos o'r pla yn Eilenberg, a lledodd fel tân gwylt. Fe ffodd un o'r gweinidogion i ddiogelwch, a bu farw y ddau arall gan adael Martin Rinkart ar ei

ben ei hun. O fewn dim roedd yn cynnal cymaint â hanner cant o angladdau y dydd, a bu farw bron i bum mil o bobl – gan gynnwys ei wraig ei hun.

Yn 1638, yn dilyn y pla, daeth newyn ac yna gwarchae gan filwyr Sweden. Martin Rinkart berswadiodd pennaeth y fyddin i godi'r gwarchae, ac fe wnaeth hynny eilwaith yn 1639.

Ond nid am ei waith arwrol yn ystod y pla ac yn achub y ddinas y cofir amdano heddiw, ond oherwydd un o'i emynau. Emyn 'bwrdd', hynny yw gras bwyd, oedd hwn yn wreiddiol, ond emyn y byddwn ni'n canu cyfieithiad Cymraeg J. Henry Jones ohono ar yr ŵyl ddiolchgarwch.

Diolchwn oll i Dduw
 Â llaw a llais a chalon,
 cans rhyfeddodau mawr
 a wnaeth i ni blant dynion:
 er dyddiau'n mebyd ni
 a'n cynnar gamre gwan,
 di-ri yw'r doniau hael
 a ddaw'n ddi-baid i'n rhan.

Mae tri phennill yr emyn yn fwrlwm o ddiolchgarwch, ac o gofio'r hanes a'r cefndir, mae'n emyn rhyfeddol.

Beth oedd gan Martin Rinkart i ddiolch amdano? Dyna fyddai llawer yn holi. Byw hanner ei oes yn sŵn a chanlyniadau rhyfela, gweld colli ei wraig a miloedd eraill i'r pla, gorfod ysgwyddo cynnal angladdau di-ri a cheisio bugeilio'r teuluoedd trallodus; arwain bywyd cyhoeddus Eilenburg yn wyneb bygythiadau byddin Sweden.

Beth oedd yna mewn difri i ysbrydoli emyn o fawl a diolch mor odidog?

Ond methu dirnad cyfrinach ei fywyd yw gofyn cwestiwn felly. Oherwydd gŵr o'r un anian â'r Apostol Paul oedd Martin Rinkart, yn diolch nid *am* bob peth, ond *ym* mhob peth. Ac mae yna fyd o wahaniaeth.

Mae yna derfyn yn dod i ddiolch am bob peth, ac mae yna lawer o bethau na fyddem ni, na neb arall, yn breuddwydio diolch amdanynt.

Ond mae'r agwedd meddwl a'r ysbryd sy'n diolch ym mhob peth yn ei gwneud hi'n bosib i ni i ddal i wneud, hyd yn oed pan fo'r pethau pwysicaf ac anwylaf yn llithro o'n gafael.

Meddai'r Apostol Paul yn Rhufeiniaid (Rhuf. 5:3–5):

'Heblaw hynny, yr ydym hyd yn oed yn gorfoleddu yn ein gorthrymderau, oherwydd fe wyddom mai o orthrymder y daw'r gallu i ymddal, ac o'r gallu i ymddal y daw rhuddin cymeriad, ac o gymeriad y daw gobaith.'

A dyma obaith na chawn ein siomi ganddo, oherwydd y mae cariad Duw wedi ei diwallt yn ein calonau trwy'r Ysbryd Glân y mae ef wedi ei roi i ni.

Ac meddai yn y llythyr at y Philipiaid, wrth ddiolch am rodd garedig yr eglwys, (Php. 4:11–13):

'... oherwydd yr wyf fi wedi dysgu bod yn fodlon, beth bynnag fy amgylchiadau. Gwn sut i gymryd fy narostwng, a gwn hefyd sut i fod uwchben fy nigon. Ym mhob rhyw amgylchiadau, yr wyf wedi dysgu'r gyfrinach sut i ddygymod, boed â llawnder neu newyn, â helaethrwydd neu brinder. Y mae gennyf gryfder at bob gofyn trwy yr hwn sydd yn fy nerthu i.'

Mae gennym ni gymaint i ddiolch amdano – fel mae'r cyfan sydd ar y bwrdd yn ei ddangos i ni; o ffrwythau a llysiau i gynnyrch cegin a ffatri; i lyfrau a chylchgronau; i radio a theledu a'r holl gyfarpar technolegol sy'n gwneud bywyd gymaint haws; am gartref ac aelwyd, am deulu a thylwyth a ffrindiau; am ofal a thendans yn ôl y galw a'r angen drwy law doctor, nyrs a gofalwr. Diolch yn wir. Ond diolch fwy am yr un sydd yno i roi i ninnau gryfder at bob gofyn, pan fod y bendithion tymhorol a materol, a'r fendith fwyaf un, iechyd, yn llithro o'n gafael. Yr un sydd wedi ein sicrhau nad oes yna ddim, dim oll a grëwyd, a all ein gwahanu ni oddi wrth ei gariad yn Iesu Grist. A dyna'r testun diolch pennaf o bob un.

GWEDDIWN

Wrth i ni ddathlu ein digonedd a diolch am ein bwyd, clodforwn di, O Dad, am y cyfan a wnaethost ac am yr hyn oll a roddaist i ni.

Am silffoedd sy'n llwythog a chypyrddau sy'n llawn.

Am yr amrywiaeth o fwyd sydd ar gael, am archwaeth iach a'r modd i'w fodloni.

Am bopeth a gynrychiolir yn y gwasanaeth diolchgarwch hwn,

Greawdwr a Chynhaliwr pawb,
 rhown glod a diolch i Ti.
 Am y rhai sy'n cynhyrchu a darparu bwyd,
 ffermwyr a garddwyr sy'n cydweithio gyda Thi mewn harmoni.
 Am bawb yn y gadwyn fwyd o gae i ffatri,
 o fanwerthwyr i ddarparwyr a defnyddwyr, y naill yn dibynnu ar y llall.

Greawdwr a Chynhaliwr pawb,
 rhown glod a diolch i Ti.
 Am ein gwlad ffrwythlon, amrywiol a hardd,
 sy'n cyflenwi cymaint o'r hyn sydd ei angen arnom –
 ein bwyd, ein dŵr, adnoddau ar gyfer diwydiant ac ynni –
 ac yn cynnig i ni lecynnau i hamddena, ymlacio ac adnewyddu.

Greawdwr a Chynhaliwr pawb,
 rhown glod a diolch i Ti.
 Am gymuned yr eglwys a'r gymuned yr ydym yn byw ynddi,
 am gyfeillion, cymdogion a chydabod sydd,
 gyda'u diddordeb, cefnogaeth, cymwynasgarwch a'u gofal,
 yn cyfoethogi'n bywyd a rhoi i ni flas ar fyw,
 ac am efengyl gras a Christ ein Gwardedwr
 a'th gariad diollwng ynddo ef.

Greawdwr a Chynhaliwr pawb,
 rhown glod a diolch i Ti.

CYDWEDDÏO

Gawn ni uno yn awr yng ngweddi'r Arglwydd:
 'Ein Tad . . .'

EMYN 130 'Pob peth, ymhell ac agos'

Y FENDITH

EMYN 15 'I Dad y trugareddau i gyd'

(H.W.R.)

Oedfa ar Thema: Goleuni

[Mae PowerPoint ar gael ar wefan yr Undeb i gyd-fynd â'r oedfa hon]

[Y cwmni i eistedd mewn hanner cylch o gwmpas bwrdd ac arno un gannwyll fawr wen. Angen sicrhau bod y bwrdd a'r gannwyll yn amlwg.]

Cerddoriaeth dawel i chwarae yn y cefndir i gyfleu'r syniad o wawr neu olau. Chwarae'r dôn 'Berwyn' drwyddi unwaith neu ddwy].

EMYN 222 'Tyrd atom ni, O Grëwr pob goleuni'

ARWEINYDD

Croeso cynnes i bawb ohonoch chi; mae'n hyfryd eich gweld a chael eich cwmni. Fel y gwelwch chi, mae gyda ni gannwyll wen ar y bwrdd yn y canol, ac yn y funud byddwn yn ei chynnu.

Dod ynghyd i addoli Duw wnaethon ni, ac i foliannu ei enw, ac un ffordd o wneud hynny yw drwy adrodd salm. Dewch i ni ddweud gyda'n gilydd salm a ddysgwyd i ni yn blant, y ganfed salm.

Cyd-ddweud Salm 100

ARWEINYDD

Mae goleuo cannyll yn hen, hen draddodiad yn yr eglwys, a hynny nid jest er mwyn cael golau, ond fel ffordd i rannu'r neges mai goleuni yw Duw, ac fel arwydd o bresenoldeb Duw gyda'i bobl. Mae'r gannwyll olau yn dweud bod Duw gyda ni bob amser – pa mor dywyll bynnag y mae arnom ambell dro.

[Goleuo'r gannwyll tra bod yr adnodau'n cael eu darllen]

ADNODAU

Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear . . . A Duw a ddywedodd, 'Bydded goleuni', a goleuni a fu. A Duw a welodd y goleuni, mai da oedd. (Genesis 1:3–4a; Beibl WM)

Goleuni yw Duw ac nid oes ynddo ef ddim tywyllwch . . . os rhodiwn yn y goleuni, fel y mae ef yn y goleuni, y mae gennym gymundeb â'n gilydd.

(1 Ioan 1:5b;7; BCN)

GWEDDI

Am hyfryd olau'r dydd,
Dyrchafwn glodydd glân
I Ti, O Dduw, – dy ddoniau sydd
yn haeddu newydd gân;
Am nawdd dy adain gref,
Yn nhywyll oriau'r nos,
Ein mawl ddyrchafwn hyd y nef
I Ti, bob dydd o'n hoes.

Diolch i ti, o Dduw ein Tad, am gyfle i addoli ac i fwynhau cwmni'n gilydd yma nawr, gan gofio hefyd dy fod ti gyda ni ac yn ein cydio ynghyd yn un teulu ynot ti.

Bendithia ein cymdeithas ac arwain ni, drwy dy Ysbryd, i addoli mewn ysbryd a gwirionedd. Clyw ein gweddi yn enw Iesu a'n dysgodd i weddio drwy ddweud Ein Tad . . .

EMYN

[Bydd angen taflen gyda geiriau'r emyn arni neu ddefnyddio'r PowerPoint]

Ciliodd pob seren
draw o'r ffurfafen;
Gwenu mae'r heulwen
ar doriad dydd;
Llysiau a blodau,
pawb yn dihuo,
Golau sy'n agor
Llygaid y dydd.

Ceiliog yn clochdar,
adar yn trydar,
Canant yn gynnar
ar doriad dydd;
Dweud maent am neges

gwawr y goleuni,
Sôn am ddeffroad
bywyd y dydd.

Deuwn i foli
Duw pob daioni
Am fod goleuni
ar doriad dydd;
Mwy yw ein moliant
am heulwen Iesu,
Golau ein bywyd
ydyw pob dydd.

Carey Jones (Emyn 134, *Caniedydd yr Ifanc*)

DARLLENIADAU

Yn y dechreuad yr oedd y Gair; yr oedd y Gair gyda Duw, a Duw oedd y Gair.
Yr oedd ef yn y dechreuad gyda Duw.

Daeth pob peth i fod trwyddo ef; hebddo ef ni ddaeth un dim sydd mewn bod.
Ynndo ef yr oedd bywyd, a'r bywyd, goleuni dynion ydoedd.

Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch, ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.

Ioan 1:1–5 (BCN)

Yna llefarodd Iesu wrthynt eto. 'Myfi yw goleuni'r byd,' meddai. 'Ni fydd neb sy'n fy nghanlyn i byth yn rhodio yn y tywyllwch, ond bydd ganddo oleuni'r bywyd.'

Ioan 8:12

Dywedodd Iesu wrthynt, 'Am ychydig amser eto y bydd y goleuni yn eich plith. Rhodiwch tra bo'r goleuni gennych, rhag i'r tywyllwch eich goddiweddyd. Nid yw'r sawl sy'n rhodio yn y tywyllwch yn gwybod lle y mae'n mynd. Tra bo'r goleuni gennych, credwch yn y goleuni, ac felly plant y goleuni fyddwch.'

Ioan 12:35–36a

SGWRS

[*Os yw'n bosib, ceisiwch gael gafael ar y math o ganhwylbren 'soser' sydd â dolen ami i'w chario, a chopi mor fawr â phosib o 'Light of the World' Holman Hunt, neu ddelwedd o'r darlun ar PowerPoint*]

Mae'n mynd yn dipyn bach o banig yn ein tŷ ni pan fydd y trydan yn methu – nid oherwydd ofn y tywyllwch, ond oherwydd methu dod o hyd i'r canhwyllau a'r matsys.

Yng nghyfnod plentyndod ac ieuencid llawer ohonom, roedd y gannwyll a'r lamp olew a'r matsys wrth law o hyd, a ninnau'n cario canhwyllbren tebyg i hwn i arwain y ffordd i'r gwely.

A dyna wahaniaeth mae un gannwyll fach yn gallu'i wneud.

Mae yna ddihareb o Tsieina sy'n dweud, 'Gall un gannwyll alltudio'r nos'.

Wel, yng nghyfnod ein plentyndod, cyn bod trydan yn ein cartrefi, roedd lle i ddiolch gyda ni i gyd am y gannwyll a'i golau.

Darlun enwog, a chyfarwydd iawn ar un adeg, yw darlun Holman Hunt o Iesu Grist yn sefyll yn curo ar ddrws â'i law dde, gyda llusern a channwyll ynnddi yn ei law chwith. Teitl y darlun yw 'Light of the World' neu 'Goleuni'r Byd'.

[Dangos copi o'r darlun]

Mae yna hanes diddorol i'r darlun. Yn ôl Holman Hunt ei hun, fe'i paentiodd 'ar orchymyn dwyfol,' hynny yw roedd yn credu ar ei galon bod Duw am iddo greu'r darlun, ac mae'r un gwreiddiol yng nghapel Coleg Keble, Rhydychen. Yna fe baentiodd Hunt ail fersiwn – un llai, sydd yn oriel gelf dinas Manceinion.

Daeth y darlun yn enwog iawn a phobl yn tyrru i'w weld yn Rhydychen. Ond am fod y coleg yn codi tâl ar bobl oedd am ei weld, fe baentiodd Holman Hunt drydydd fersiwn llawn maint a aeth ar daith o gwmpas y byd o 1905 hyd 1907, ac a gyflwynwyd wedyn i gadeirlan Sant Paul yn Llundain.

Mae'r darlun yn seiliedig ar eiriau o Lyfr y Datguddiad:

Wele, yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo; os clyw rhywun fy llais ac agor y drws, dof i mewn ato a swperaf gydag ef, ac yntau gyda minnau.

Mae yna bethau diddorol iawn i sylwi arnynt yn y darlun; mae'r drws wedi'i orchuddio gan iorwg – hynny yw, does neb wedi ei agor ers amser; does yna ddim dolen na chlicied i'w gweld ar y drws – dim ond o'r tu fewn y gellid ei agor – ond y peth trawiadol yw nad o'r llusern yn unig y mae'r golau'n tywynnu, ond o ffigwr Iesu ei hun.

A dyna oedd Holman Hunt am i bawb oedd yn edrych ar y darlun ei weld a'i ddeall, mai Iesu ei hun yw goleuni'r byd.

Mae geiriau Iesu'n goleuo ffordd bywyd – 'llusern yw dy air i'm troed a llewyrch i'm llwybr.'

Mae gweithredoedd Iesu yn rhai golau, glân – ac yn gweddnwid bywyd pawb.

Ond Iesu ei hun yw'r goleuni, a pa faint bynnag yw'r tywyllwch, pan ei bod yn fagddu arnom, yn ei gwmi ef mae yn olau.

Meddai Elfed yn ei emyn cyfarwydd, 'Mae yn olau ond cael gweld dy wyneb di'.

Byddai Holman Hunt, a llawer un arall, yn dweud, 'Mae yn olau ond im gael dy gwmi di'. Ac o gael ei gwmi, ein braint ni yw rhannu'r golau i oleuo'r ffordd i eraill.

Yng ngeiriau Paul:

Tywyllwch oeddech chwi gynt, ond yn awr goleuni ydych yn yr Arglwydd. Byddwch fyw fel plant goleuni, oherwydd gwelir ffrwyth y goleuni ym mhob daioni a chyfiawnder a gwirionedd. Gwnewch yn siŵr beth sy'n gymeradwy gan yr Arglwydd.

(Effesiaid 5:8–10)

GWEDDI

O Dduw ein Tad, diolch i ti am fendith goleuni ac am fedru gweld golau'r haul, y lleuad a'r sêr, a'r harddwch y mae eu goleuni hwy yn ei ddangos i ni yn dy fyd rhyfeddol. Cofiw'n am y rhai y mae eu byd yn dywyll am na allant weld nag awyr las na chwmwl, na lliwiau'r coed na'r blodau, na gwên plentyn nac wynebaw anwyliaid. Ond, fel y gwyddom ein Tad, i lawer o bobl sy'n gallu gweld mae'n byd

yn un tywyll iawn. Fe gofiwn am y rhai sydd yn nhywyllwch rhyfel a thrais, tlodi a newyn, salwch ac afiechyd, galar a hiraeth. Diolch i ti am bawb sy'n ceisio goleuo'u sefyllfa; y gweithwyr mudiadau dyngarol sy'n rhannu bwyd ac yn helpu ceiswyr lloches, y rhai sy'n rhedeg banciau bwyd, y nyrsys a'r doctoriaid a gweithwyr y gwasanaeth iechyd, gofalwyr cartrefi gofal ac aelwydydd.

Diolch am y consýrn, y gofal a'r tendans sy'n goleuo bywydau llawer ac, fe gredwn, yn fynegiant o dosturi, consýrn a chariad yr Iesu.

Rho dy fendith ar bawb sy'n trio gwneud ein byd yn decach a goleuach byd, ac agor ein llygaid i weld o'r newydd yr un sydd o hyd yn Oleuni'r Byd, Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.

EMYN 774 'Mi glywais lais yr Iesu'n dweud'

Y FENDITH

Dduw y goleuni,

nid yw'r tywyllwch yn dywyllwch i ti.

Llewyrcha yn ein tywyllwch oleuni bywyd.

Lle bynnag y mae'n dywyll, boed i'th oleuni di ddod â gobaith ac iachâd.

Llewyrcha yn ein tywyllwch oleuni ein bywyd,

'fel bo golau cariad Iesu yn disgleirio dros y byd'. Amen.

(H.W.R.)

Oedfa ar Thema: Dwylo

[Pawb i eistedd mewn hanner cylch o gwmpas bwrdd]

[Gosod llun neu ddelwedd o 'Praying Hands', Albrecht Dürer, ar y bwrdd yng ngolwg pawb. Mae PowerPoint ar gael ar wefan yr Undeb i gyd-fynd â'r oedfa hon.]

ARWEINYDD

EMYN 788 'O Dduw ein Tad' (Penillion 1 a 2 yn unig)

Curwch ddwylo, yr holl bobloedd; rhowch wrogaeth i Dduw â chaneuon gorfoledd.

Oherwydd y mae'r ARGLWYDD, y Goruchaf, yn ofnadwy, yn frenin mawr dros yr holl ddaear.

(Salm 47:1–2)

Ond tydi, O ARGLWYDD, yw ein tad; ni yw'r clai a thi yw'r crochenydd; gwaith dy ddwylo ydym i gyd.

(Eseia 64:8)

Ond yr wyf yn ymddiried ynot ti, ARGLWYDD, ac yn dweud, 'Ti yw fy Nuw.'

Y mae f'amserau yn dy law di . . .

(Salm 31:14–15a)

CROESO

Croeso cynnes iawn i bob un ohonoch chi i'r oedfa. Mae'n dda eich gweld a chael eich cwmni. Un o'r pethe cyntaf fyddwn yn wneud wrth gwrdd â'n gilydd yw codi llaw ac ysgwyd dwylo neu gofleidio, a'r defnydd syml hynny o'n dwylo'n cyfleu gymaint; yn arwydd o groeso a chyfeillgarwch a pherthynas rhyngom ni a'n gilydd.

Yn yr oedfa heddiw, rydyn ni'n mynd i feddwl am bwysigrwydd dwylo yn ein hanes ni i gyd.

Mae'r salmydd yn galw arnom ni i guro dwylo mewn mawl i Dduw.

Mae'r salmydd hefyd yn Salm 8 yn rhyfeddu at waith dwylo Duw, ac yn rhyfeddu fwy ei fod yn ein cofio ni bob un a'n gwneud yn bartneriaid iddo yn ei fyd.

Gadewch i ni gydadrodd y salm yn awr.

Cydadrodd Salm 8 'Arglwydd ein lôr ni, mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear'

Beth am i ni ddilyn yr arfer a ddysgwyd i ni yn ein plentyndod, a rhoi'n dwylo ynghyd wrth i ni gydweddio yn awr?

GWEDDI

Diolch i ti, O Dduw ein Tad, am y cyfle i gwrdd â'n gilydd unwaith eto.

Estyn dy law atom yn awr, yw'n gweddi, i fendithio'n cymdeithas, i arwain ein haddoliad ac i gysgodi drosom yn dy gariad.

Gofynnwn hyn yn enw Iesu a'n dysgodd i weddio drwy ddweud gyda'n gilydd, 'Ein Tad . . .'

Gweddi'r Arglwydd

EMYN 372 'Dwylo ffeind oedd dwylo Iesu ym mhob man'

DARLLENIADAU

Daeth dyn gwahanglwyfus ato ac erfyn arno ar ei liniau a dweud, 'Os mynni, gelli fy nglanhau.'

A chan dosturio, estynnodd ef ei law a chyffwrdd ag ef a dweud wrtho, 'Yr wyf yn mynnu, glanhaer di.' Ymadawodd y gwahanglwyf ag ef ar unwaith, a glanhawyd ef.

(Marc 1:40–42)

Daethant i Bethsaida. A dyma hwy'n dod â dyn dall ato, ac yn erfyn arno i gyffwrdd ag ef.

Gafaelodd yn llaw'r dyn dall a mynd ag ef allan o'r pentref, ac wedi poeri ar ei lygaid rhoes ei ddwylo arno a gofynnodd iddo, 'A elli di weld rhywbeth?' Edrychodd i fyny, ac meddai, 'Yr wyf yn gweld pobl, maent yn edrych fel coed yn cerdded oddi amgylch.'

Yna rhoes ei ddwylo drachefn ar ei lygaid ef. Craffodd yntau, ac adferwyd ef; yr oedd yn gweld popeth yn eglur o bell.

(Marc 8:22–26)

Pan ddaeth i dŷ Pedr, gwelodd Iesu ei fam-yng-nghyfraith ef yn gorwedd yn wael dan dwymyn. Fe gyffyrddodd â'i llaw, a gadawodd y dwymyn hi, ac fe gododd a dechrau gweini arno. Gyda'r nos, daethant â llawer oedd wedi eu meddiannu gan gythreuliaid ato, ac fe fwriodd allan yr ysbrydion â'i air, ac iacháu pawb oedd yn glaf; fel y cyflawnid y gair a lefarwyd trwy Eiseia'r proffwyd: 'Ef a gymerodd ein gwendidau ac a ddug ymaith ein clefydau.'

(Math. 8:14–17)

Yr oeddent yn dod â phlant ato, iddo gyffwrdd â hwy. Ceryddodd y disgyblion hwy, ond pan welodd Iesu hyn aeth yn ddig, a dywedodd wrthynt, 'Gadewch i'r plant ddod ataf fi; peidiwch â'u rhwystro, oherwydd i rai fel hwy y mae teyrnas Dduw yn perthyn. Yn wir, rwy'n dweud wrthynt, pwy bynnag nad yw'n derbyn teyrnas Dduw yn null plentyn, nid â byth i mewn iddi.' A chymerodd hwy yn ei freichiau a'u bendithio, gan roi ei ddwylo arnynt.

(Marc 10:13–16)

SGWRS

Rydyn ni i gyd yn gyfarwydd â'r darlun neu'r ddelwedd o ddwylo mewn ystum gweddi. 'A Study for the hands of an Apostle' yw'r enw swyddogol ar y darlun gwreiddiol, ond ers blynyddoedd lawer fe ddaeth i gael ei adnabod fel 'Praying Hands' – Dwylo mewn ystum gweddi.

Meddyliwch am ein defnydd ni o'n dwylo; chwifio ac ysgwyd dwylo i gyfarch, curo dwylo mewn cymeradwyaeth; estyn dwylo i wasanaethu; agor dwylo i helpu a gofalu, i gofleidio a chwtsio.

Meddyliwch am y dwylo yr ydyn ni'n dibynnu arnynt nhw'n feunyddiol; dwylo'r amaethwyr a'r garddwyr i gynhyrchu bwyd; dwylo'r morwyr a'r gyrwyr sy'n cludo

nwyddau ar draws y byd; dwylo'r siopwyr a'r gwerthwyr nwyddau o bob math; dwylo'r adeiladwyr, yn benseiri a chynllunwyr; yn seiri coed a maen; yn drydanwyr a phlymwyr; dwylo'r rhai sy'n cyfoethogi'n bywyd drwy eu creadigrwydd, yn feirdd a llenorion a dramodwyr, yn actorion a pherfformwyr ar lwyfan a theledu; a'r cwmni hynny sydd wedi cysegru eu dwylo i'n gwasanaethu mewn meddygfa ac ysbyty, yn ddoctoriaid a nyrsys, ffisiotherapyddion a fferyllwyr, glanhawyr a chlodwyr, a holl weithwyr amrywiol y gwasanaeth iechyd.

Lle fydden ni heb waith a gwasanaeth dwylo?

Yn y gyfrol *Ysgrifau yr Hanner Bardd* a enillodd y Fedal Ryddiaith i'r Prifardd Dafydd Rowlands yn eisteddfod Hwlfordd yn 1972, teitl un o'r ysgrifau yw 'Y Ddau Grwt'. Roedd yr awdur ar ei ffordd i'r coleg yng Nghaerfyrddin yn ei gar un bore, ac yng nghyffiniau Gelli Aur gwelodd ddau grwt yn symud i ddiogelwch erchwyn y ffordd wrth iddo frysio heibio. Welodd e erioed mohonyn nhw wedyn, ond roedd y cipolwg ohonynt wedi aros yn hir yn y cof:

Roedd y naill yn gafael yn llaw y llall, y mwyaf yn gafael yn llaw y lleiaf, y naill yn gofalu am y llall . . . am wn i nid y dwylo ei hun a afaelodd ynof yn gymaint â'r cydiad dwylo, plethu clòs y bysedd, symbol y berthynas rhwng dau, cwlwm y gofal . . . Er mai plant oeddent, bodau bychain yng ngwawr eu byw, roedd yno yn eu dwylo gynhesrwydd y berthynas sy'n llenwi gwacter pob unigrwydd a chyfannu tristwch bob bwlch.

Mae yna lu o hanesion yn yr Efengylau am Iesu'n estyn ei law at bobl. Pob math o bobl dan bob math o anghenion ac amgylchiadau – hyd yn oed y gwahangleifion, y cwmni esgymun yn nyddiau'r Iesu. Nid un i gadw draw o neb nac unrhyw gwmni oedd Iesu Grist.

Mae gan Elfed emyn sy'n sôn am hynny; efallai y byddwch yn ei gofio o ddyddiau *Caniedydd Newydd yr Ysgol Sul* (141) a *Caniedydd yr Ifanc* (65).

Yr Iesu a gerddai o amgylch y wlad,
 Ei air yn oleuni, Ei law'n dwyn iachâd;
 Ar wneuthur daioni i bawb roedd ei fryd –
 A heddiw Efe yw Gwaredwr y byd.

Yng ngwledd y briodas y dŵr droai'n win;
Ei gysur gyfrannai i'r llwythog a'r blin;
Pob poen a phob dolur, pob ofn a phob braw
A giliai dan dyner gyffyrddiad ei law.

Bydda i'n hoffi meddwl nad dim ond estyn ei law a chyffwrdd y gwahanol rai a ddaeth ar ei ofyn wnaeth Iesu. Mae Mathew a Marc yn dweud iddo gymryd plant i'w freichiau a'u cofleidio. Rwy'n ei weld felly gyda phobl hefyd; yn rhoi braich am ysgwydd, yn cofleidio, yn cwtsio ambell un, ac yn ei ddwylo, i ddyfynnu Dafydd Rowlands, 'gynhesrwydd y berthynas sy'n llenwi gwacter pob unigrwydd a chyfannu tristwch bob bwlch'.

Alla i ddim meddwl am Iesu ond fel un felly. Mae peth mor syml â chyffyrddiad llaw yn gallu dweud a golygu cymaint.

Rydym ni i gyd yn gwybod am werth dwylo. Ein dwylo ein hunain, a dwylo pobl eraill. Ac ar hyd ein hoes rydyn ni wedi dibynnu ar waith dwylo sydd wedi troi'n fendith i ni.

Alla i ddim chwaith beidio â meddwl mai felly y mae Iesu am i'n dwylo ninnau fod.

GWEDDI

O Dduw ein Tad, derbyn ein diolch yn awr am fendithion y dydd yma,
bendith cartref clyd a chysurus,
bendith bwyd a dillad a chysuron bywyd,
bendith cwmni a gofal anwyliaid, ffrindiau a gofalwyr,
yn fwy na dim, bendith yr iechyd sydd wedi caniatáu i ni fod yma gyda'n gilydd.

Diolch am gael rhannu, unwaith eto, yr hanesion am Iesu yn defnyddio'i ddwylo i estyn mewn bendith at eraill,
i roi golwg i'r dall a chlyw i'r byddar ac iechyd i'r claf,
i dderbyn plant bychain, i groesawu'r unig a'r trist,
i roi i'r anghenus a'r tlawd.

Diolchwn i ti am bawb sydd heddiw yn dilyn Iesu drwy estyn llaw at eraill dan bob math o amgylchiadau, a'u cyffyrddiad yn troi'n fendith i rai o'r mwyaf anghenus o dy blant di.

Fe gofiwn, ein Tad, mai ein dwylo ni yw dy ddwylo di yn ein byd heddiw, ac o'u rhoi i ti, fe all ein dwylo ninnau, fel dwylo Iesu gynt, fod yn gyfrwng bendith i eraill. Gweddïwn am dy fendith ar ddwylo caredig, cymwynasgar a gwasanaethgar lle bynnag y maent yn parhau gwaith yr Iesu ac yn amlygu dy gariad di. Clyw ein gweddi yn ei enw a'i haeddiant Ef. Amen

EMYN 758 'Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr'

Y FENDITH

(H.W.R.)



Oedfa ar Thema: Adnabod

ARWEINYDD

[Cyfarch a chroesawu pob un]

Fy enw i yw *[dweud eich enw]* a fi sy'n arwain yr oedfa heddiw.

Mae enw'n bwysig, on'd yw e? Ein rhieni roddodd ein henwau arnom, ac maen nhw wedi bod gyda ni erioed. Wrth ein henwau mae'r bobl sydd agosaf atom yn ein hadnabod, a ninnau wrth gwrs yn eu hadnabod hwythau wrth eu henwau.

Yn Stori'r Creu yn Llyfr Genesis, mae Duw yn caniatáu i Adda roi enw ar yr holl creaduriaid roedd Duw wedi eu creu, ac wrth yr enw hwnnw y byddant yn cael eu hadnabod. Mae'r salmydd hefyd yn dweud am Dduw, 'Yr wyf yn adnabod holl adar yr awyr, ac eiddo fi holl creaduriaid y maes.' (Salm 50:11)

Dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, 'Oni werthir pum aderyn y to am ddwy geiniog? Eto nid yw un ohonynt yn angof gan Dduw. Yn wir, y mae hyd yn oed pob blewyn o wallt eich pen wedi ei rifo. Peidiwch ag ofni; yr ydych yn werth mwy na llawer o adar y to.' (Luc 12: 6–7).

Mae Duw yn ein hadnabod ni. Fe ganwn ni emyn sy'n sôn am hyn. Emyn roeddem ni'n ei ganu pan oeddem yn blant, ond mae yna wirionedd pwysig ynddo i bob un ohonom wrth feddwl am Dduw a'i berthynas â ni.

EMYN 157 'Mae'r Arglwydd yn cofio y dryw yn y drain'

[Awgrymir canu'r ddau bennill cyntaf a'r cytgan]

ARWEINYDD

Mae'r penillion yn sôn am berthynas Duw gyda'i holl creaduriaid a'i ofal amdanynt, ac mae'r cytgan yn ein hatgoffa am faint ei ofal drosom ni.

Beth am ganu'r cytgan unwaith eto?

Rhown foliant i Dduw am ein cadw ninnau'n fyw,
am fwyd ac am ddillad moliannwn ein Duw;
rhow'n foliant i Dduw am ein cadw ninnau'n fyw,
am fwyd ac am ddillad moliannwn, moliannwn ein Duw.

Fe wrandawn ni nawr ar salm sy'n dweud am ddyfnder adnabyddiaeth Duw ohonom.

Salm 139 yw hi, ac fe fydd [*dweud yr enw*] yn darllen y salm i ni.

Mae'n werth clywed y frawddeg olaf yna unwaith eto,
'Yr wyt yn fy adnabod mor dda.'

Mae Duw yn gwybod ac yn deall y cyfan amdanom, ond nid rhywbeth i'w ofni yw hyn. 'Duw cariad yw,' medd yr adnod gyfarwydd, ac mewn cariad y mae Duw yn ymwneud â ni bob amser.

Gadewch i ni ganu emyn arall, lle mae Elfed yn sôn am yr hyn y mae adnabyddiaeth Duw ohonom yn ei olygu i ni.

EMYN 208 'Yr Arglwydd a feddwl amdanaf'

ARWEINYDD

Stori o'r Testament Newydd gawn ni nesaf, gyda [*dweud yr enw*] yn ei darllen i ni.

DARLLENIAD LUC 10: 38–42 'Yng nghartref Martha a Mair'

ARWEINYDD

Mae'r stori'n ein cyflwyno ni i rai o ffrindiau agosaf Iesu, sef Martha a Mair, oedd yn byw ym mhentref Bethania, heb fod yn bell o Jerwsalem. Roedd ganddyn nhw frawd hefyd 'ndoedd, sef Lasarus.

Mae'r ffaith fod Iesu'n galw yno ac yn aros gyda hwy yn dangos yr agosrwydd oedd rhyngddyn nhw, ac mae sawl stori arall am berthynas Iesu â'r teulu'n cadarnhau hyn.

Rydym i gyd wedi clywed y stori am Mair yn dangos ei hoffter hi o Iesu drwy dywallt ennaint gwerthfawr drosto a sychu ei draed â'i gwallt. A beth am y tro hwnnw pan gymerwyd Lasarus yn ddirifol wael? Fe anfonodd ei chwirydd neges at Iesu, 'Y mae dy gyfaill, Syr, yma'n wael.' Er bod Iesu'n gwybod ei fod yn peryglu ei fywyd, mae'n mynnu mynd i Fethania atynt, a phan ddeallodd fod Lasarus wedi marw roedd ef 'o dan deimlad dwys'. Oes, mae digon o dystiolaeth fod Iesu a theulu Bethania yn agos iawn at ei gilydd.

Peth braf yw cael ffrindiau agos. Pobl rydym yn meddwl y byd ohonynt, a'r cyfeillgarwch sydd rhyngom yn cyfoethogi ein bywydau'n fawr. Rhai sy'n ein hadnabod yn dda ac yn fawr eu gofal ohonom.

Gadewch i ni aros am funud a meddwl am y bobl hynny sy'n bwysig yn ein bywydau ni [*munud neu ddau o dawelwch*]. Diolchwn amdanynt mewn gweddi.

GWEDDIWN

Dduw ein Tad, rydym am ddiolch i ti am y cyfeillion sydd gennym,
a phob perthynas o gariad ac ymddiriedaeth sydd rhyngom ni ag eraill.

Diolch am bobl sy'n ein hadnabod ni'n dda,
yn gwybod am ein rhagoriaethau a'n gwendidau,
ac yn fawr eu cariad tuag atom drwy'r cyfan.

Diolch am rhai y gallwn ni ddibynnu arnynt
i ddeall

i gydymdeimlo

i gefnogi

i helpu

i rannu cwmni

i ofalu.

Diolch am bob un sy'n dangos cyfeillgarwch Iesu
ac sy'n gyfrwng i'th gyfeillgarwch dwyfol di.

Amen

ARWEINYDD

Dewch yn ôl at y stori. Gwelwn fod y ddwy chwaer yn ymateb i ymweliad Iesu mewn ffyrdd gwahanol. Mae Mair yn credu mai'r ffordd orau i ddangos ei chroeso a'i hoffter o Iesu yw treulio cymaint o amser ag y gall hi yn ei gwmni. Dod i'w adnabod yn well drwy eistedd, gwrandao a dysgu.

Mae Martha, ar y llaw arall, yn credu mai paratoi ar gyfer Iesu yw'r ffordd orau i ddangos cyfeillgarwch. Dyna'r ffordd i wneud i Iesu deimlo ei fod yn cael croeso. Mwy na hynny, dydi Martha ddim yn gallu deall pam nad yw Mair yn gweld pethau yn yr un ffordd, ac mae'n ymbil ar Iesu i roi stŵr i'w chwaer am beidio â helpu.

Rwy'n hoffi'r ffordd mae cyfieithiad beibl.net yn dweud fod Iesu'n cyfarch Martha – 'Martha annwyl'. Onid yw'n dweud y cwbl am ei berthynas â hi a'i adnabyddiaeth ohoni? Mae Iesu'n mynd yn ei flaen, 'rwy'ti'n poeni ac yn cynhyrfu am y pethau yna i gyd', ond nid beirniadaeth na cherydd yw hyn. Dyma un sy'n adnabod ac yn deall natur y person mae'n siarad â hi, fel y mae'n adnabod ac yn deall pob un ohonom, ac mae'n delio â ni gyda'r un tynerwch ac anwyldeb ag a ddangoswyd tuag at Martha.

Yn y salm a ddarllenwyd, mae'r salmydd yn dweud, 'yr wyt wedi deall fy meddwl o bell . . . ac yr wyt yn gyfarwydd â'm holl ffyrdd.'

Sylwch, 'Fy holl ffyrdd'. Mae hynny'n ddiddorol, oherwydd mae ffyrdd pob un ohonom yn gallu amrywio. Mae'r emynydd yn sôn am 'rhodio'r llwybr cul', ac weithiau daw hynny'n rhwydd. Ond y mae'r un mor rhwydd hefyd i grwydro oddi ar y ffordd; i gollu'n ffordd; i gymryd y ffordd anghywir; i gyrraedd croesffordd; i ddod i ben y ffordd ac yn y blaen. Ond pa ffordd bynnag rydym yn cael ein hunain arni, mae Iesu'n deall ac yn ein cyfeirio ni'n ôl mewn cariad ato ef a'i ffordd ef. Fel mae'n gwneud fan hyn gyda Martha.

Roedd Martha wedi ei llethu gan y tasgau roedd hi'n teimlo bod yn rhaid iddi hi eu gwneud er mwyn croesawu Iesu. Mae'n siŵr ein bod ni gyd yn gwybod am y profiad yna. Cymaint i'w wneud, a chyn lleied o amser i'w wneud e! Cyfrifoldebau, dyletswyddau, galwadau, gofalon, pryderon yn pentyrru yn ein bywyd, a ninnau ddim yn gwybod ble i ddechrau delio â nhw.

Ar adegau felly mae Iesu, yr un sy'n ein hadnabod, yn ein cyfarch yn annwyl ac yn dyner gan dawelu ein hofnau a'n gwahodd i rannu cwmni gydag ef.

Fel y dywedodd un tro wrth ei ddisgyblion, 'Dewch ataf fi, bawb sy'n flinedig ac yn llwythog, ac fe roddaf fi orffwystera i chi. Cymerwch fy iau arnoch a dysgwch gennyf, oherwydd addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon, ac fe gewch orffwystera i'ch eneidiau. Y mae fy iau i yn hawdd ei dwyn, a'm baich i yn ysgafn.'

GWEDDIWN

O Dduw, cyflwynwn i ti bob un heddiw sy'n dyheu am dawelwch meddwl:
pob un sydd mewn pryder a gofid;
pob un sy'n drist ac yn teimlo'n ddigalon;
pob un sydd dan bwysau gwaith a'u cyfrifoldebau'n pwyso'n drwm arnynt;
pob un sy'n teimlo cywilydd ac euogrwydd;
pob un sydd mewn gwendid, llesgedd a phoen;
O Dduw, amgylchyna hwy â'th gariad
a rho iddynt fendith dy dangnefedd.
Yn enw Iesu, yr un a ddysgodd ei ddisgyblion i weddio drwy ddweud,
Ein Tad . . .

EMYN 320 'Iesu, Iesu, rwyf ti'n ddigon'

Y FENDITH

Arglwydd Iesu,
rho dy fendith arnom
a chadw ni yn wastad
yn llawenydd dy bresenoldeb
ac yng nghwlwm dy gyfeillgarwch
Amen.

(R.W.S.)



Dwy Oedfa Gymun Gartref

(A) 'Y Mawr a'r Bach'

[Gellid sgwrsio am ychydig wrth osod yr elfennau. Y ffordd hawsaf i ddechrau ydi trwy wahodd pawb i gydweddiö Gweddi'r Arglwydd, neu fe allai un o'r cwmni ddarllen emyn (er enghraifft 653; 305; 312 neu 49). Wedi hynny, darllen o'r ysgrythur.]

DARLLENIAD 1 Corinthiaid 11:23–26 a Mathew 6:25–34

[Gellid darllen y myfyrdod hwn wedyn]

MYFYRDOD

Am y gair hwnnw o eiddo Iesu, 'Ond ceisiwch yn gyntaf deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, a rhoir y pethau hyn i gyd yn ychwaneg i chwi,' dywedir fod ffurf arall arno'n cael ei ddefnyddio gan yr Eglwys Fore. Dyma fe: 'Gofynnwch am y mawr, a'r manion a ychwanegir i chwi.'

Erbyn meddwl, mae'r ffurf honno'n gwneud cyfiawnder llawn â'r pwynt dan sylw gan Iesu yn ychydig adnodau olaf y chweched bennod o Efengyl Mathew. Cyferbynnu Teyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef y mae Iesu, â gofynion materol bywyd, 'Beth yr ydym i'w fwyta?' neu 'Beth yr ydym i'w yfed?' neu 'Beth yr ydym i'w wisgo?'

Iesu fyddai'r olaf i ddweud bod yn rhaid dewis rhwng y ddau; rhwng yr ysbrydol a'r materol.

Mewn byd fel hwn, nid oes ystyr i ddewis felly. Na, nid mater o ddewis ydyw, ond mater o benderfynu beth sy'n fawr, ac felly'n hawlio'r flaenoriaeth, a beth sydd, mewn cymhariaeth, yn fach. Gwylwch, meddai, rhag gwneud y mawr yn fach, a'r bach yn fawr. 'Gofynnwch am y mawr, a'r manion a ychwanegir i chwi.'

Mae i'r ffurf arall yma neges arbennig ar gyfer ein dyddiau ni. Aethom ati i geisio cyfrif am bob mawredd, ei esbonio'n dwt, a'r diwedd fu ei fychanu. Peidiodd y

mawr â bod yn fawr, ac i nifer fawr o bobl nid yw bywyd drwyddo i gyd yn ddim ond casgliad o fanion. Pentyrru manion yw'r unig uchder sy'n bosibl. Rhaid dysgu eto: 'Gofynnwch am y mawr, a'r manion a ychwanegir i chwi.' Wrth siarad am Deyrnas Dduw, y peth mwyaf a wnaeth Iesu oedd, nid ei ddiffinio, nid ei mesur, nid cyfrif amdani, ond cyfleu ei mawredd bendigedig; a pheri i ti a minnau dorri allan i ganu:

O! uchder heb ei faint,
O! ddyfnder heb ddim rhi',
O! led a hyd heb fath
Yw'n hiachawdwriaeth ni.

[Yna, cyn rhannu'r bara, gwahodd pawb i gydweddiö, ac yna un o'r cwmni i ddarllen y weddi isod]

GWEDDI DROS Y BARA

Arglwydd Iesu, ein Gwaredwr a'n brenin, diolch am fendithion a phosibiliadau'r ychydig funudau hyn wrth dy fwrdd, yng nghwmni'n gilydd.

Diolch i ti y cawn ddod atat yn ein tristwch a'n gofid, a derbyn cysur a chymorth. Diolch i ti y cawn ddod atat yn wan ein ffydd ac yn isel ein hysbryd, a derbyn dy nerth i'n gwneud yn gryf.

Diolch i ti y cawn ddod atat yn ein llawenydd, a derbyn dy fendith a'th arweiniad. Diolch i ti y cawn ddod atat yn fud i wrando dy lais yn llefaru wrthym.

[Dosbarthu'r bara, ac yna dweud:]

Cymerodd Iesu fara, ac wedi diolch i Dduw amdano, fe'i torrodd a dweud, 'Hwn yw fy nghorff a dorrir er eich mwyn chi, cymerwch a bwytwch er cof amdanaf . . .'

[Cyfranogi o'r bara]

[Cyn rhannu'r gwin, gwahodd pawb i gydweddiö, ac yna un o'r cwmni i ddarllen y weddi ganlynol:]

GWEDDI DROS Y GWIN

Arglwydd Iesu, ein gwaredwr a'n brenin, diolchwn i ti am dy gariad a'th ras ac am y breintiau a ddaw i ni o'th fywyd a'th angau drud:

Daethost yn dlawd er mwyn i ni gael ein gwneud yn gyfoethog.

Cefaist dy eni i deyrnas Herod er mwyn i ni gael ein geni o'r newydd i deyrnas Dduw.

Yr oeddet heb le i roi dy ben i lawr er mwyn i ni gael meddiannu'r lle a baratoist ar ein cyfer.

Yfaist o gwpan ein gofidiau er mwyn i ni gael yfed o gwpan dy lawenydd di.

Gwisgaist goron o ddrain er mwyn i ni gael gwisgo coron gogoniant.

Cefaist dy ddyrchafu ar groes er mwyn i ni gael ein dyrchafu i'th orsedd di.

Atgyfodaist er mwyn i ni yn awr ac yn y diwedd gael ein huno â thi ym mhresenoldeb y Tad.

Am y cyfan a wnaethost drosom, derbyn ein diolch.

[Dosbarthu'r gwin, ac yna dweud:]

Cymerodd Iesu gwpan a thywallt gwin iddo a dweud, 'Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i; yfwch bawb o hwn . . .'

[Cyfranogi o'r gwin]

[Wedi eiliad neu ddwy o dawelwch, cyhoeddi'r fendith]

Y FENDITH

O! Dduw, awdur a rhoddwr pob daioni, cymorth ni drwy dy Ysbryd i dyfu'n fwy tebyg i Iesu Grist, ein Harglwydd byw.

Amen.

(O.L.I.E.)



(B) 'A Swperaf Gydag Ef . . .'

[Gellid sgwrsio am ychydig wrth osod yr elfennau. Y ffordd hawsaf i ddechrau ydi trwy wahodd pawb i gydweddiio Gweddi'r Arglwydd, neu fe allai un o'r cwmni ddarllen emyn (er enghraifft 653; 305; 312 neu 49). Wedi hynny, darllen o'r ysgrythur.]

DARLLENIAD 1 Corinthiaid 11:23–26 a Datguddiad 3:20 a 21

[Gellid darllen y myfyrdod hwn wedyn]

MYFYRDOD

'Os agorir y drws,' meddai Iesu, 'mi ddof i mewn, ac a swperaf gydag ef . . .'
Swper, sylwch, nid brechwast. Ar adeg brechwast mae holl ofalon y dydd o flaen pobol. Nid cinio chwaith. Ar adeg cinio, awr fach yn unig sydd i ginio. Swper – yr amser hwnnw o'r diwrnod pan fo person wedi cefnu ar waith a strach y dydd, a chyfle wedi dod bellach i ymlacio'n dawel braf, gyda siawns am sgwrs gall, galon wrth galon.

Fe wyddom i gyd am y profiad hyfryd o gael cyfaill neu gyfeillion draw am swper; dw i wrth fy modd â'r siarad sy'n digwydd ar ôl swper – pawb yn ddedwydd yn y goleuni bendigedig sy'n tywynnu mor gynnes rhwng cyfeillion.

Profiad felly yw bod gydag Iesu . . . 'Os agorir y drws,' meddai, 'mi ddof i mewn, ac a swperaf gydag ef . . .'

[Yna, cyn rhannu'r bara, gwahodd pawb i gydweddiio, ac yna un o'r cwmni i ddarllen y weddi isod]

GWEDDI DROS Y BARA

Gyda'r bara hwn, cymorth ni, Arglwydd, i glywed dy guriad, i wrando dy lais, ac i agor drysau ein bywyd i ti gael dod i mewn a thrigo ynom. Amen

[Dosbarthu'r bara, ac yna dweud:]

Cymerodd Iesu fara, ac wedi diolch i Dduw amdano, fe'i torrodd a dweud, 'Hwn yw fy nghorff a dorrir er eich mwyn chwi; cymerwch a bwytewch er cof amdanaf . . .'

[Cyfranogi o'r bara]

[Cyn rhannu'r gwin, gwahodd pawb i gydweddiö, ac yna un o'r cwmni i ddarllen y weddi isod]

GWEDDI DROS Y GWIN

Gyda'r cwpan hwn, o fewn ystafell ddirgel ein calon, neilltuwn fan i gyfarfod â thi, Arglwydd. Tyrd atom, a gwna'r ystafell honno'n deml, ein calon yn allor, a'r munudau hyn yn offrwm o weddi i ti. Amen

[Dosbarthu'r gwin, ac yna dweud:]

Cymerodd Iesu gwpan a thywallt gwin iddo a dweud, 'Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i; yfwch bawb o hwn . . .'

[Cyfranogi o'r gwin]

[Wedi eiliad neu ddwy o dawelwch, cyhoeddi'r fendith]

Y FENDITH

Boed fy nghalon iti'n demel
Boed fy nghalon iti'n nyth,
Ac o fewn y drigfan yma
Aros, Iesu, aros byth.
Amen

(O.L.I.E.)